**Rhif: 4**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C23/0806/00/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **16/10/2023** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Abermaw** |
| **Ward:** | **Abermaw** |
| **Bwriad:** | **Gwaith arfaethedig yn ardal Gerddi'r Draphont yn Abermaw i:**<br>**1: Atgyweirio, cryfhau a chodi uchder oddeutu 60m o hyd o wal for,**<br>**2: Adeiladu wal eilaidd gyda giat lifogydd newydd yn yr ardal tu ol i'r wal for gynradd (rhwng yr A496 a'r wal for gynradd),**<br>**3: Gosod system ddraenio newydd er mwyn rheoli dwr wyneb a gorlifo yn yr ardal tu ol i'r wal eilaidd a'r giatiau llifogydd,**<br>**4: Mewnosod offer gwydnwch rhag llifogydd, 'Property Flood Resilience', ar eiddo yn ardal y cei.**<br>**5: Mewnosod pibell arllwys dwr wyneb newydd yn y wal for.** |
| **Lleoliad:** | **Gerddi’r Draphont, Stryd yr Eglwys, Abermaw, LL42 1EL** |
| **Crynodeb o’r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Cais yw hwn i wella'r mecanweithiau amddiffyn rhag llifogydd. Mae'r gwaith yn cynnwys:-

- Atgyweirio, cryfhau a chodi uchder tua 60m o wal môr;
- Codi wal eilaidd gyda giatiau llifogydd newydd yn yr ardal tu ôl i'r brif wal fôr;
- Gosod rhwydwaith draenio newydd er mwyn rheoli dŵr wyneb a gorlifo yn yr ardal tu ôl i'r wal eilaidd a'r giatiau llifogydd;
- Gosod pibell allfa ddŵr wyneb newydd sy'n ymwthio o'r wal môr i'r harbwr;
- Gosod offer gwydnwch rhag llifogydd mewn eiddo yn ardal y cei.

1.2 Byddai wal fôr yn cael ei ail adeiladu a'i wynebu gyda charreg o'r wal bresennol ac yna byddai rhan wal parapet a fyddai oddeutu 1.2 medr uwchlaw lefel y llawr cyfagos. Byddai'r 'rock armour' presennol yn cael ei ail ddosbarthu ar ran uchaf y traeth ar draws ffrynt y wal fôr a'i atgyfnerthu gyda cherrig ychwanegol fel y galw. Byddai wal wrth gefn newydd yn cael ei chodi ar ffin ogleddol Gerddi Viaduct a fyddai'n cynnwys gwydr ar y rhan uchaf. Byddai'r gwaith hefyd yn cynnwys cynllun i reoli dŵr wyneb a fyddai'n cynnwys gatiau llifogydd, gwterydd, draeniau ac amrywiaeth o addasiadau i'r system bresennol ynghyd ac allfa dŵr wyneb newydd ar y traeth. Ar ddiwedd y gwaith byddai'r man cyhoeddus yn Gerddi Viaduct yn cael ei adfer drwy waith tirweddu a gosod dodrefn stryd newydd.

1.3 Cefnogir y cais gan y dogfennau a'r asesiadau a ganlyn:

- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Asesiad Effaith Ecolegol
- Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol
- Methodoleg Adeiladu
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – Adroddiad Sgrinio Rhagarweiniol
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Y Datblygiad Arfaethedig a'r Iaith Gymraeg
- Datganiad Tirwedd a Gweledol
- Datganiad Treftadaeth
- Asesiad Sŵn a Dirgryniad
- Asesiad Canlyniadau Llifogydd

1.4 Gorwedd y safle yn rhannol o fewn ffin ddatblygu Abermaw. Mae'r safle wedi ei leoli ym mhen deheuol Abermaw ger Aber yr Afon Mawddach yn ardal 'Viaduct Gardens' o'r dref. Mae'n gorwedd gerllaw'r A496 ac mae Rheilffordd y Cambrian yn rhedeg trwy safle'r cais. Gorwedd y safle o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Mawddach ac mae oddi fewn i Ardal Tirwedd Arbennig. Mae rhan o'r safle yn gorwedd o fewn yr Ardal Cadwraeth. Gorwedd y safle yn rhannol o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llyn a'r Sarnau a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Aber Mawddach. Mae Ardal Cadwraeth Arbennig Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Llechwedd Abermaw (Barmouth Hillside) wedi eu lleoli o fewn 20 medr i'r safle. Gorwedd y safle o fewn parth llifogydd C1 ac C2 fel a ddangosir ar y mapiau cyngor datblygu yn gysylltiedig gyda Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd. Ar y mapiau llifogydd ar gyfer cynllunio mae'r safle o fewn parth 3. Ceir cymysgedd o unedau preswyl a masnachol gerllaw.

1.5 Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn syrthio o fewn y disgrifiad a'r meini prawf a nodir yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn unol â'r disgrifiad a'r meini prawf a nodir yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017. O ystyried mai prosiect datblygiad i wella'r amddiffynfeydd mor yw'r bwriad, fe syrthia i golofn 1, rhan 10(m) o Atodlen 2. Mae datblygiad o unrhyw faint yn y categori 10(m) angen cael ei sgrinio i benderfynu os yw'r bwriad yn Ddatblygiad Asesiad Effaith Amgylcheddol. Mae'r bwriad

arfaethedig wedi ei sgrinio a'i asesu yn unol â'r meini prawf datblygu dan Atodlen 3 ac fe ystyrir fod y datblygiad arfaethedig yn annhebygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd ac felly nid oes angen cyflwyno asesiad effaith amgylcheddol gyda'r cais cynllunio.

1.6 Cyflwynir y cais i Bwyllgor gan fod y safle yn 0.5 hectar neu fwy.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn datgan fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a’r Cynllun Datblygu Lleol. Er bod Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn (CDLl) yn rhagflaenu fersiwn ddiweddaraf Polisi Cynllunio Cymru (PCC), ystyrir fod y polisïau sy'n berthnasol i'r cais hwn yn y CDLl ar y Cyd yn parhau yn gyson gyda PCC.

2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r "egwyddor datblygu cynaliadwy", fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad isod mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**2.3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026 a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017**

PS 1: Yr Iaith Gymraeg a’i diwylliant
ISA 1: Darpariaeth Isadeiledd
TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant
PS 5: Datblygiad cynaliadwy
PS 6: Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd
PCYFF 1: Ffiniau Datblygu
PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
PCYFF 3: Dylunio a siapio lle
PCYFF 4: Dylunio a thirweddu
ARNA 1: Ardal Rheoli Newid Arfordirol
PS 19: Gwarchod ac/neu wella’r amgylchedd naturiol
AMG 2: Ardaloedd o dirwedd arbennig
AMG 4: Gwarchod yr Arfordir
AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Lleol
PS 20: Diogelu a lle bo’n berthnasol wella asedau treftadaeth
AT 1: Ardaloedd cadwraeth, safleoedd treftadaeth y byd a thirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig
AT 4: Diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi’u dynodi a’u gosodiad

Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA):
CCA: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy

**2.4 Polisïau Cenedlaethol**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12 - Chwefror 2024)

Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur
Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio

Nodyn Cyngor Technegol 14: Cynllunio Arfordirol
Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd
Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth
Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

**3 Hanes Cynllunio Perthnasol:**

C97M/0192/00/R3 – Atgyfnerthu sylfaen, atgyweirio ac ymestyn morglawdd a chau a mewnlenwi llithrfa bresennol – Caniatáu 17 Tachwedd 1997.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Tref / Cymuned: | Dim gwrthwynebiad. |
| Trafnidiaeth: | Cyfeiriaf at y cais uchod a chadarnhaf nad oes gan yr uned drafnidiaeth wrthwynebiad i'r bwriad |
| Dŵr Cymru: | Ysgrifennwn ymhellach i'n ymgynghoriad blaenorol cyfeirnod PLA0075995 dyddiedig 6 Tachwedd 2023 lle gwnaethom nodi fod gennym wrthwynebiad i'r cais. Ers hynny, rydym wedi croesawu'r cyfle i ymgysylltu â'r Ymgeisydd i drafod y cynigion â'r berthynas gyda'n rhwydwaith o asedau yn yr ardal.<br><br>Fel y gwyddoch o'n gohebiaeth ddiwethaf, mae'r safle datblygu arfaethedig yn cael ei groesi gan sawl ased dŵr gwastraff a dŵr glân gyda'u safleoedd bras wedi eu marcio ar y cynlluniau atodol. Yn unol â Deddf Diwydiant Dŵr 1991, mae Dŵr Cymru angen mynediad at ei offer bob amser i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw a gwaith atgyweirio. O ystyried y Cynllun Safle Arfaethedig, mae'n ymddangos y byddai sawl elfen o'r datblygiad arfaethedig wedi'u lleoli uwchben ac o fewn ffiniau'r hawddfreintiau ac ardaloedd gwarchod ein hasedau.<br><br>Daeth canlyniad y trafodaethau gyda'r ymgeisydd i'r casgliad bod angen ymchwiliadau pellach i ddod o hyd i'n hasedau gan roi mesurau ar waith i sicrhau bod yr asedau'n cael eu diogelu'n briodol a bod ein mynediad yn cael ei gynnal. Felly, rydym yn cynghori os ydych yn bwriadu rhoi Caniatâd Cynllunio i'r datblygiad uchod, y gallwn ond ei gefnogi os yw'r amodau a'r nodiadau cynghori canlynol wedi'u cynnwys ar unrhyw ganiatâd cynllunio. Gofynnwn hefyd i gynllun tirlunio gynnwys amodau gan nad yw'r cynllun tirlunio presennol yn sicrhau mynediad digonol i'n hasedau.<br><br>Amodau<br>Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd hyd nes bydd manylion gwaith tirweddu caled a meddal wedi'u cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y manylion hyn yn cynnwys:<br>i) Datganiad yn nodi'r amcanion dylunio a sut bydd y rhain yn cael eu cyflawni;<br>ii) gwaith cloddio sy'n dangos lefelau neu gyfuchlinau presennol a gorffenedig arfaethedig;<br>iii) modd o amgáu a chadw strwythurau;<br>iv) ardaloedd mynediad i gerbydau a cherddwyr eraill ac ardaloedd cylchdroi;<br>v) deunyddiau wynebu caled; vi) mân arteffactau a strwythurau (e.e. dodrefn, offer chwarae, 'sbwriel neu unedau storio eraill, arwyddion ac ati), a<br>vi) nodweddion dŵr. |

Bydd gwaith tirwedd meddal yn cynnwys cynlluniau plannu; manylebau ysgrifenedig (gan gynnwys trin a gweithrediadau eraill sy'n gysylltiedig â sefydlu planhigion a glaswellt); atodlenni planhigion sy'n nodi rhywogaethau, meintiau cyflenwad planhigion a rhifau/dwyseddau arfaethedig lle bo hynny'n briodol; rhaglen weithredu (gan gynnwys gwaith yn raddol, lle bo hynny'n berthnasol).

Bydd y manylion tirlunio yn cynnwys cynllun sy'n dangos y berthynas rhwng y gwaith tirlunio a'r asedau dŵr gwastraff cyhoeddus a dŵr glân gan gynnwys ciosgau, gorchuddion a llinell carthffosydd a phrif bibellau dŵr.

Bydd y gwaith tirlunio yn cael ei wneud yn unol â'r manylion cymeradwy cyn cwblhau'r datblygiad.

Rheswm: Er amddiffyn cyfanrwydd yr asedau dŵr gwastraff cyhoeddus a dŵr glân ac osgoi difrod iddynt.

Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd hyd nes bydd manylion cynllun i amddiffyn cyflwr strwythurol a mynediad parhaus i'r prif gyflenwad dŵr sy'n croesi'r safle wedi'u cyflwyno a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y cynllun yn cynnwys arolwg lleoliad asedau a dyluniad manwl yn amlinellu'r mesurau a gymerwyd i ddiogelu ac amddiffyn cyflwr strwythurol a mynediad parhaus y prif gyflenwad dŵr cyhoeddus. Ni fydd unrhyw ddatblygiad arall yn unol â'r caniatâd hwn yn cael ei ymgymryd hyd nes fo'r mesurau gwarchod a gymeradwywyd wedi eu gweithredu a'u cwblhau. Cedwir at y cynllun a gymeradwyir trwy gydol oes y datblygiad a bydd y mesurau gwarchod yn cael eu cadw am byth.

Rheswm: Er amddiffyn cyfanrwydd y prif gyflenwad(au) dŵr cyhoeddus gan osgoi niwed iddynt.

Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd hyd nes bydd manylion cynllun i amddiffyn cyflwr strwythurol a mynediad parhaus i'r asedau dŵr gwastraff cyhoeddus sy'n croesi'r safle wedi cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y cynllun yn cynnwys arolwg lleoliad asedau a dyluniad manwl yn amlinellu'r mesurau a gymerwyd i ddiogelu a diogelu cyflwr strwythurol a mynediad parhaus y prif gyflenwad dŵr gwastraff cyhoeddus. Ni fydd unrhyw ddatblygiad arall yn unol â'r caniatâd hwn yn cael ei ymgymryd hyd nes fo'r mesurau gwarchod a gymeradwywyd wedi eu gweithredu a'u cwblhau. Cedwir at y cynllun a gymeradwyir trwy gydol oes y datblygiad a bydd y mesurau gwarchod yn cael eu cadw am byth.

Rheswm: Er amddiffyn cyfanrwydd yr asedau dŵr gwastraff cyhoeddus ac osgoi difrod iddynt.

Hefyd yn cynnwys cyngor i’r datblygwr.

| | |
| --- | --- |
| Uned Dŵr ac Amgylchedd YGC: | Gan mai cynllun gan eu gwasanaeth hwy ydy’r bwriad nid ydynt yn cynnig sylwadau cynllunio. |
| Uned Bioamrywiaeth: | Ar hyn o bryd, defnyddir safle'r gwaith arfaethedig fel ardal hamddena (Gerddi'r Draphont) gyda morglawdd eisoes yn ei le. Mae'r gwaith arfaethedig yn ceisio gwella'r amddiffyniad morol presennol ochr yn ochr â gosod mesurau amddiffyn llifogydd eraill i wella'r amddiffynfeydd rhag llifogydd yn |

yr ardal (fel y nodir yn y cais hwn).

Adroddiadau Ecolegol:
• Asesiad Effaith Ecolegol (EcIA) gan Arup dyddiedig 10 Gorffennaf 2023
• Gwybodaeth i Hysbysu am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) gan Ymgynghoriaeth Gwynedd dyddiedig Tachwedd 2023

Safleoedd Dynodedig
Mae'r cynnig yn rhannol o fewn dau Safle Dynodedig:
• ACA Pen Llŷn a’r Sarnau
• SoDdGA Aber Mawddach

Mae'r cynnig yn agos at ddau safle dynodedig (o fewn 20 metr):
• ACA Coedwigoedd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd
• SoDdGA Llethrau Abermaw

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
Mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar y Safleoedd Ewropeaidd canlynol: Ardal Gwarchodaeth Arbennig Gogledd Bae Ceredigion ac ACA Coedwigoedd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd fel a nodir yn yr EcIA a'i gytuno gan CNC.
Fodd bynnag, mae'r cynnig hwn yn debygol o gael effaith sylweddol ar ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae CNC wedi tynnu sylw at eu pryderon ynghylch colli cynefin rhynglanwol bach o fewn yr ôl troed a'r newid posibl i broses arfordirol oherwydd y bibell uchel arfaethedig.

Cyngor Gwynedd a CNC yw'r awdurdodau cymwys o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), rhaid iddynt cyn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer prosiect sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar ACA, naill ai yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, wneud asesiad priodol o oblygiadau'r prosiect ar gyfer y safle hwnnw o ystyried ei amcanion cadwraeth.

Bydd y datblygiad yn yr amgylchedd morol ac ar y tir. Mae cyfrifoldebau Cyngor Gwynedd a CNC yn gorgyffwrdd: Trwydded Forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer prosiectau islaw lefel Penllanw Cymedrig Dŵr Uchel (MHWS) allan i 200nm; a Chaniatâd cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ar gyfer prosiectau ar yr arfordir i lawr i lefel Penllanw Cymedrig Dŵr Isel (MLWS).

Yn yr achos hwn gan fod yr effaith i'r ACA o fewn amgylchedd y môr, mae'n gwneud synnwyr i CNC fod yn awdurdod cymwys arweiniol oherwydd:
1. CNC sydd â'r arbenigedd technegol gorau - pan mai mater technegol yw'r ffactor pwysicaf wrth asesu effaith y cynnig
2. Mae holl effeithiau'r cynnig yn yr amgylchedd morol.
3. CNC sydd â'r prif ddiddordeb yn y safle hwn (morol).
4. Mae CNC mewn sefyllfa i reoli agweddau cymhleth y cynnig hwn a'r gofynion o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.
5. Bydd CNC yn rhan annatod o'r rhaglen iawndal.

Credaf fod CNC fel yr awdurdod cymwys arweiniol yn yr achos hwn wedi cynnal asesiad priodol ar gyfer y Drwydded Forol.

Mae'r ddogfen sy'n hysbysu'r HRA (YGC Tachwedd 2023) yn cynnal asesiad llawn a helaeth o'r prosesau sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer asesu prosiectau a chynlluniau drwy bob cam sy'n ofynnol o dan

reoliadau 63 a 64.

Daw'r asesiad priodol i'r casgliad:
"*The described measures are considered to reduce with risk of construction activity to the extent that there would be no adverse effect on the integrity of the Pen Llyn a'r Sarnau SAC. However, residual effects do remain due to the loss of habitat attributed to coastal squeeze and minor direct habitat loss, which cannot be mitigated*."

Mae'r adroddiad HRA yn mynd ymlaen i archwilio mesurau lliniaru ac i ystyried effeithiau cyfunol.

Daw'r adroddiad HRA i'r casgliad am y prawf uniondeb gan nodi "*In terms of habitat loss as a result of coastal squeeze, these impacts cannot be mitigated. Therefore, a conclusion of adverse effect on the integrity of the Pen Llyn a 'r Sarnau must be drawn. The assessment must then proceed to discuss alternative options, IROPI and compensatory measures."*

Mae'r adroddiad HRA yn archwilio opsiynau amgen ac yn dod i'r casgliad nad oes opsiynau amgen ymarferol wedi'u nodi, bydd angen dangos y rhesymau hanfodol sy'n gorbwyso budd y cyhoedd. Mae'r adroddiad HRA yn cadarnhau bod gan y prosiect resymau hanfodol sy'n gorbwyso budd y cyhoedd. Mae wedyn yn archwilio'r gofyniad i ddarparu mesurau digolledu. Dan adran 10 ar gyfer mesurau digolledu, mae'r adroddiad HRA yn cyfeirio at nodyn eglurhad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio Rhaglen Creu Cynefinoedd Cenedlaethol wrth gyflawni prosiectau FCERM, mae adran 3.6 yn datgan:

"Bydd modd cynnal y mesurau cydbwyso y bydd eu hangen i wneud iawn am y colledion hynny drwy weithio mewn ffordd strategol drwy'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd."

Rwy'n cytuno â'r holl resymau a'r casgliadau yn adroddiad HRA. Mae angen y datblygiad hwn er budd hollbwysig y cyhoedd a bydd iawndal yn cael ei ddarparu drwy'r Rhaglen Creu Cynefinoedd Cenedlaethol. Ond mae'n rhaid i Gyngor Gwynedd ymgynghori â Llywodraeth Cymru cyn penderfynu ar y cais hwn.

Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r cynnig.

| | |
|---|---|
| Parc Cenedlaethol Eryri: | Nid oes gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri unrhyw sylw i wneud ar y cais. |
| Iechyd yr Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd: | Diolch am ymgynghori â gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ynglŷn â'r uchod.<br><br>Mae'r Gwasanaeth wedi ystyried y cais, ac mae ein sylwadau fel a ganlyn:<br><br>RHEOLI NIWSANS<br><br>Gall gwaith adeiladu achosi problem sŵn a llwch i drigolion cyfagos. Nodaf o'r cais fod y datblygiad arfaethedig yn agos iawn at eiddo preswyl. Mae'r datblygwr wedi cyflwyno asesiad sŵn a dirgrynu fel rhan o'r cais cynllunio, sy'n amlinellu mesurau lliniaru a awgrymir. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fanylion wedi'u cyflwyno ar reoli llwch o weithgareddau adeiladu. Dylid |

cyflwyno Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) i sicrhau y cytunir ar y mesurau rheoli angenrheidiol cyn dechrau datblygu. Rhaid i'r datblygwr ddarparu cynllun manwl ar sut i Reoli Niwsans (llwch, sŵn a dirgryniadau) fel rhan o CEMP, a dylid gwneud yr holl waith gyda chytundeb ar gynllun cymeradwy.

AMOD: Cyn i'r gwaith ddechrau, dylid cyflwyno Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig, sy'n cynnwys cynllun manwl ar fesurau i leihau sŵn a dirgryniad, a rheoli llwch (os yn berthnasol). Rheswm: i warchod mwynderau'r ardal

ASESIAD SŴN A DIRGRYNU

Mae'r cynnig wedi bod yn destun Asesiad Effaith Sŵn a Dirgryniad a gynhaliwyd gan gontractwr arbenigol, Bureau Veritas UK Limited. Amlinellir manylion yr asesiad effaith sŵn a dirgrynu a wnaed yn y ddogfen a ganlyn: Asesiad Sŵn a Dirgryniad – Amddiffyn rhag Llifogydd Abermaw, UK.19366481/01 (NIA). Wrth nodi NIA yn y sylwadau, dyma'r ddogfen a'r fersiwn yr wyf yn cyfeirio atynt.

Mae fy sylwadau ar benodau penodol fel a ganlyn:

1 RHAGYMADRODD Mae anghysondeb gyda'r oriau gwaith yn y ddogfen. Nodir ym mhwynt 3.8 mai dim ond yn ystod yr wythnos y bydd y gwaith adeiladu yn digwydd. Fodd bynnag, mae pwynt 1.5 yn nodi mai oriau gwaith yr adeiladu fydd: Dydd Llun i ddydd Gwener: 0800-1800, dydd Sadwrn: 0800-13:00; a dim gwaith ar y Sul. Dyma'r oriau gwaith a dderbynnir yn gyffredinol gan y gwasanaeth. Nodir hefyd y bydd y gwaith yn cael ei gyflwyno fesul cam er mwyn osgoi'r prif wyliau ysgol a gwyliau banc, gan gynnwys y Nadolig, y Pasg, Gwyliau'r Haf, a'r holl wyliau banc.

Mae cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu da yn hanfodol i liniaru cwynion. Fel y nodir ym mhwynt 7.5, bydd angen i'r ymgeisydd hysbysu cymdogion/busnesau cyfagos o'r oriau gwaith arfaethedig ar gyfer y datblygiad, a'r mesuriadau i'w cymryd er mwyn gwarchod mwynderau (sŵn a dirgryniad). Dylai'r cyfathrebiad gynnwys pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau neu gwynion ynghylch sŵn a/neu ddirgryniad, ynghyd â rhif ffôn a/neu ebost. Dylai mesurau priodol fod yn eu lle i ymateb i unrhyw gwynion.

AMOD: Ac eithrio mewn argyfwng neu gyda chytundeb ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw, ni chaniateir cyflawni unrhyw weithrediadau a awdurdodir neu sy'n ofynnol gan y caniatâd hwn, gan gynnwys gweithredu'r offer, a mewnforio deunyddiau y tu allan i'r oriau canlynol: 08:00-18:00 Dydd Llun - Dydd Gwener (dyddiol) a 09:00-13:00 Dydd Sadwrn. Ni fydd unrhyw weithgareddau safle sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r defnyddiau a ragnodir o dan yr amod hwn ar ddydd Sul a Gwyliau Banc. Mae angen darparu copi o'r cyfathrebiadau i'r trigolion lleol yr effeithir arnynt i'r awdurdod cyn i'r gwaith ddechrau. Rhaid i'r llythyr gynnwys atodlen o waith gydag oriau gwaith arfaethedig, pwynt cyswllt a rhif llinell gwyno.

Dylai'r Contractwr roi gweithdrefn ymateb addas ar waith.

Rheswm: i warchod mwynderau'r ardal

4 ASESIAD SŴN ADEILADU

Mae amcangyfrif o effeithiau sŵn a dirgrynu o ganlyniad i'r gwaith adeiladu wedi'i ragfynegi gan ddefnyddio'r dulliau a ddisgrifir yn BS 5228: 'Rheoli Sŵn a Dirgryniad ar Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored'. Yn ystod y gwaith dymchwel ac adeiladu, dylid defnyddio'r dulliau ymarferol gorau i leihau sŵn a dirgryniad o'r gwaith. Dylai lefelau sŵn a dirgrynu yn ystod y gwaith adeiladu gydymffurfio â'r lefelau a nodir yn BS 5228.

Mae Tabl 3.1 o'r NIA yn cyflwyno'r trothwyon sŵn adeiladu sydd wedi'u mabwysiadu ar gyfer y datblygiad i ddangos yr effeithiau sŵn posibl. Y trothwy ar gyfer sŵn adeiladu yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos (0800-1800) yw 65 dB, sydd o fewn categori A o'r dull ABC. Fel y nodir yn Nhabl 4.1, mae'r Lefel Sŵn Gweithgaredd Brig a ragwelir ar y Derbynnydd Sensitif Agosaf (NSR) yn amrywio rhwng 63dB a 67 dB, sy'n rhoi amrywiad rhwng -2 a +2 dB. Rydym yn cytuno â'r asesiad bod effeithiau sŵn adeiladu ar yr NSRs yn dderbyniol gyda'r mesurau lliniaru sŵn a awgrymir ac arfer gorau fel yr amlinellir yn Adran 7.

AMODAU:

➢ Rhaid gweithredu mesurau lliniaru (fel yr amlinellir yn adran 7 o'r NIA) i sicrhau bod lefelau sŵn adeiladu o fewn Categori A o'r dull ABC.

➢ Bydd rhwystrau sŵn yn cael eu gosod ar hyd ffin ogleddol y safle ar gyfer gwaith adeiladu ger NSR1 y dangosir eu bod yn profi effaith andwyol gan sŵn adeiladu i gyflawni gostyngiad mewn sŵn adeiladu hyd at 10 dB.

➢ Cyn i'r gwaith datblygu gychwyn, dylid cynhyrchu Cynllun Rheoli Sŵn ar gyfer y cyfnod adeiladu a'i gyflwyno i'r awdurdod i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig.

Rheswm: Er mwyn gwarchod trigolion yr ardal

5 & 6 ASESIAD SŴN A DIRGRYNIAD PENTYRRU CYFNOD BYR

Mae pwynt 1.4 yn nodi mai dim ond ar gyfer y gwaith dros dro y gellir defnyddio'r pentyrrau wrth adeiladu'r wal newydd. Mae'r NIA yn dod i'r casgliad bod y dirgryniad o stancio llen wedi'i asesu'n fach (amcangyfrif o lefel dirgryniad dirgrynol rhwng 2.5 - 3.7 mm/s) ac nad oes angen unrhyw fesurau lliniaru pellach. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd sŵn o'r sŵn stancio llen yn cael effeithiau andwyol sylweddol posibl ar y derbynyddion sensitif agosaf (mae lefel sŵn uwchlaw'r Trothwy Yn ystod y Dydd yn ystod yr Wythnos yn amrywio o 5 - 9 dB).

Fel y trafodwyd yn adran 5, nodir yn 7.3 nad yw sgrinio'r brif ffynhonnell sŵn (morthwyl dirgrynol) yn ymarferol gan y bydd wedi'i leoli hyd at 10m uwchlaw lefel y ddaear. Maent felly wedi cynghori y dylid osgoi defnyddio

stanciau llen os yn bosibl.

AMOD: Os bydd angen stancio dalennau, dylid cyfyngu'r oriau i 2 awr yn y bore (10:00 - 12:00) a 2 awr yn ystod y prynhawn (14:00 - 16:00). Dylid hefyd gweithredu mesurau lliniaru pellach trwy amwisg o amgylch morthwylion stancio, a/neu rag-dorri (llacio) y tir cyn gyrru.

Rheswm: Er mwyn gwarchod trigolion yr ardal

Nodyn i'r ymgeisydd:

Nid yw rhoi'r caniatâd cynllunio yn indemnio mewn unrhyw ffordd rhag gweithredu niwsans statudol pe bai cwynion wedi'u cadarnhau o fewn cylch gorchwyl Rhan III o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn dod i law. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Diolch am ymgynghori gyda Chyfoeth Naturiol Cymru am yr uchod, a dderbyniwyd gennym ar 16 Hydref 2023.

Mae gennym bryderon o hyd am y cais fel a gyflwynwyd oherwydd bod gwybodaeth annigonol wedi ei darparu i gefnogi'r bwriad. Er mwyn goresgyn y pryderon hyn, rydym yn cynghori bod eich Awdurdod yn sicrhau bod mesurau iawndal priodol mewn perthynas â Safleoedd Gwarchodedig. Os na fydd mesurau iawndal yn cael eu sicrhau, byddem yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn. Ceir manylion pellach isod.

Rydym hefyd yn cynghori ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd hyd yma, dylid cynnwys amod ynghylch safleoedd gwarchodedig at unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir. Heb gynnwys yr amod hwn, byddem yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn:

Amod – Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu

Bydd angen Trwydded Forol ar gyfer y gwaith islaw Penllanw Cymderig Dŵr Uchel. Rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â'n Tîm Trwyddedu Morol (marinelicensing@naturalresourceswales.gov.uk) mewn perthynas â mesurau lliniaru a sicrhawyd o dan y gyfundrefn Trwyddedu Forol ac mewn perthynas ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Tîm Trwyddedu Morol (gweler cyngor Safleoedd Gwarchodedig isod).

**Safleoedd Gwarchodedig**

Mae gennym bryderon na ellir diystyru effaith sylweddol y datblygiad arfaethedig ar Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau (ACA). Rydym yn cyfeirio at y wybodaeth ychwanegol / diwygiedig a dderbyniwyd sy'n cynnwys:

• Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), YGC, Cyf: CPF8169, 23/11/2023, Fersiwn 0.03
• Asesiad Prosesau Arfordirol, ABPmer, Cyf Dogfen: R.4365, 23/11/23, Fersiwn 3
• Asesiad o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, YGC, Cyf: CPF8169, 21/11/2023, Fersiwn 0.03
• Cais Cynllunio Cynllun Safle arfaethedig, YGC, 285699-ARP-XX-DR-GEN-150, P02, 31.05.23
• Rhannau Draenio Arfaethedig – Arllwysfa Newydd, YGC, 285699-ARP-XX-DR-CIV-290, P03, 06.10.23

Rydym yn cytuno â chasgliadau'r Asesiad HRA diwygiedig gan na fydd y cynnig yn cael effaith sylweddol debygol ar ACA Gogledd Bae Ceredigion a SAC Safleoedd Coedwigoedd Derw ac Ystlumod Meirionnydd.

Ymhellach i'r cynlluniau a'r lluniadau diwygiedig, mae gennym y pryderon canlynol ynghylch effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y cynnig ar ACA Pen Llŷn a'r Sarnau.

**Effaith uniongyrchol / colled nodwedd SAC Atodiad 1**
Daw'r HRA Cysgodol i'r casgliad y bydd yr arllwysfa newydd (a'r gwaith diogelu cysylltiedig) yn arwain at golli 67m2 o gynefin Atodiad 1 (fflatiau mwd rhynglanwol a gwastadeddau tywod).

**Effaith uniongyrchol / colled nodwedd SAC Atodiad 1**
Rydym yn cytuno â'r asesiad o'r asesiad prosesau arfordirol y disgwylir i effeithiau anuniongyrchol fod yn ddibwys.

**Gwasgfa arfordirol**
Nodwn o asesiad gwasgfa arfordirol yr ymgeisydd fod potensial i hyd at 0.75ha o golledion gwasgedd arfordirol sy'n gysylltiedig â'r gwaith, sy'n cael eu hystyried yn uwchraddiad i'r amddiffynfa arfordirol o fewn rhan o Gynllun Rheoli'r Traethlin a nodwyd fel 'Dal y Lein'.  Mae'r HRA Cysgodol yn dod i'r casgliad y byddai'r golled yma o gynefin yn cael effaith andwyol ar nodwedd Fflatiau Mwd Rhynglanwol a Gwastadeddau Tywod yr ACA.

**Casgliad**
Nodwn fod eich Awdurdod wedi ymgymryd â HRA (Memo gan Emily Meilleur dyddiedig 6/12/2023)) sy'n cytuno â chasgliad yr HRA Cysgodol y byddai'r prosiect yn arwain at effaith andwyol ar gyfanrwydd safle ACA Pen Llŷn a'r Sarnau.

Rydym felly yn cynghori, i ganiatâd cynllunio gael ei roi, bod yn rhaid diwallu Rheoliad 64 a 68 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Os yw eich awdurdod yn fodlon nad oes unrhyw ddatrysiadau amgen a bod yn rhaid ymgymryd â'r prosiect oherwydd rhesymau budd cyhoeddus hanfodol sy'n gorbwyso, yna byddai angen sicrhau mesurau digolledu i sicrhau cydlyniad y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol.

Nodwn fod adran 3.6 o bolisi llywodraeth Cymru gyda nodyn eglurhad o'r enw 'Defnyddio'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd wrth gynnal prosiectau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Awst 2021)' yn datgan am y colledion sydd i'w priodoli i'r wasgfa arfordirol: "Bydd modd cynnal y mesurau cydbwyso y bydd eu hangen i wneud iawn am y colledion hynny drwy weithio mewn ffordd strategol drwy'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd i fynd i'r afael ag effeithiau andwyol polisïau'r Cynlluniau Rheoli Traethlin".

Mae adran 2.6 o Nodyn Canllawiau CNC 062 yn nodi y dylai'r "NHCP ddarparu iawndal am wasgfa arfordirol a cholledion ôl troed sy'n gysylltiedig â phrosiectau". Nodwn fod yr HRA Cysgodol yn nodi bod iawndal cynefinoedd yw cynnwys y wasgfa arfordirol (0.75ha) a cholledion ôl troed (67m2 neu 0.0067ha).  Rydym yn cynghori eich bod yn sicrhau bod iawndal priodol yn cael ei sicrhau drwy'r NHCP.

Fel yr esboniwyd uchod, mae cais am Drwydded Forol wedi'i gyflwyno.

Mater i'ch Awdurdod chi fydd penderfynu a ddylid sicrhau mesurau lliniaru ac iawndal drwy'r drefn gynllunio. Rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â Thîm Trwyddedu Morol CNC ar y mater hwn, ac o ran eu HRA.

**Effeithiau Adeiladu**
Credwn y gellir lliniaru effeithiau adeiladu (llygredd) ar y fflatiau llaid rhynglanwol a'r nodwedd gwastadeddau tywod yn ddigonol gyda Chynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu effeithiol (CEMP). Dylai'r mesurau lliniaru yn yr EcIA gael eu hymgorffori yn y CEMP. Felly, rydym yn cynghori bod yr amod canlynol yn cael ei osod i unrhyw ganiatâd cynllunio a ganiateir:

Amod -
Ni fydd unrhyw ddatblygiad, gan gynnwys clirio safle, yn dechrau nes bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) ar draws y safle wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig ganddo. Dylai'r CEMP gynnwys:
• Dulliau adeiladu: manylion deunyddiau, sut y bydd gwastraff a gynhyrchir yn cael ei reoli.
• Rheolaeth Safle Cyffredinol: manylion y rhaglen adeiladu yn cynnwys amserlen, manylion clirio'r safle; manylion draenio'r safle adeiladu, ardaloedd cyfyngu, parthau clustogi o faint priodol rhwng ardaloedd storio (rwbel, olew, tanwydd, cymysgu concrid ac ardaloedd golchi) ac unrhyw gyrsiau dŵr neu ddraen wyneb.
• Rheoli Bioamrywiaeth: manylion rheoli rhywogaethau ymledol; gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd, mesurau osgoi a lliniaru.
• Rheoli Adnoddau: manylion storio a chyfyngu tanwydd a deunydd cemegol; manylion cynhyrchu gwastraff a'i reoli; manylion y defnydd o ddŵr.
• Rheoli Traffig: manylion dosbarthu safleoedd, peiriannau ar y safle, cyfleusterau golchi olwynion.
• Atal Llygredd: dangoswch sut fydd Canllawiau perthnasol ar gyfer Atal Llygredd ac arfer dda yn cael eu gweithredu, yn cynnwys manylion gweithdrefnau arllwys argyfwng a chynllun ymateb i ddigwyddiad.
• Manylion y personau a'r cyrff sy'n gyfrifol am weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r CEMP a manylion cyswllt mewn argyfwng.
• Clerc gwaith ecolegol i sicrhau cydymffurfiaeth adeiladu â chynlluniau cymeradwy a rheoliadau amgylcheddol.
Bydd y CEMP yn cael ei weithredu fel y cymeradwywyd yn ystod cyfnodau paratoi ac adeiladu'r datblygiad.

Cyfiawnhad: Dylid cyflwyno CEMP i sicrhau bod y mesurau rheoli angenrheidiol yn cael eu cytuno cyn dechrau ar y datblygiad a'i weithredu i warchod yr amgylchedd yn ystod y gwaith adeiladu.

**Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) Asesiad**
Dylai eich Awdurdod gynnal asesiad WFD, gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael gan yr ymgeisydd. Rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â Thîm Trwyddedu Morol CNC ynglŷn â'r mater hwn.

**Pysgod Morol ac Ymfudol**
Nid oes gennym unrhyw bryderon i'w codi mewn perthynas â physgod morol ac ymfudol a allai fod yn bresennol yn Aber afon Mawddach.

**Perygl Llifogydd**
Rydym wedi adolygu'r FCA (Gerddi Traphont Abermaw, CPF 8169, dyddiedig 20/09/2023) a ddarparwyd i gefnogi'r cais cynllunio uchod.

Mae'r FCA wedi dangos y bydd y cynllun yn gwella'r safle o ran perygl llifogydd i'r ardal o amgylch Gerddi Traphont yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, Addasu i Newid Hinsawdd: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, dyddiedig Awst 2022.

Mae'r cynllun yn cynnwys:
• Atgyweirio/cryfhau a chodi'r morglawdd ar hyd blaen Gerddi'r Draphont i 5.6m AOD (0.29m uwchlaw'r digwyddiad llanw 0.5% +cc AEP).
• Codi wal risiog newydd a llifddor/rhwystr llifogydd y tu ôl i flaen Gerddi'r Draphont i 5.3m AOD.
• Cynllun draenio newydd i reoli dŵr wyneb yn yr ardal y tu ôl i'r wal risiog a'r llifddorau.
Gosod rhwydwaith draenio newydd i reoli dŵr wyneb a gorlifo yn yr ardal rhwng y morglawdd a'r wal risiog newydd/llifddorau.

Byddai codi'r wal i 5.6m AOD yn sicrhau nad oes gorlifo gan 'lefel dŵr llonydd' yr AOD 5.31m yn y digwyddiad llanw AEP 0.5% + cc. Gall gweithrediad y gwynt a'r tonnau arwain at orlifo dros y wal newydd o hyd. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn darparu ardal ar gyfer cyfyngu'r dyfroedd hyn fel y dangosir ar Gynllun Safle arfaethedig Dwg. Rhif 285699-ARP-XX-DR-GEN-150 Rev. P05. Pe bai'r ardal hon yn cael ei llenwi, bydd unrhyw lif ychwanegol yn cael eu cyfeirio i'r ffordd ac yn ôl i'r môr drwy'r cynllun draenio newydd (gweler Ffig.20).

Bydd y cynllun yn caniatáu ar gyfer codi uchder yr ail wal risiog yn y dyfodol i lefel o 5.8m AOD pe bai angen hyn yn y dyfodol.

Rydym yn croesawu'r mesurau lliniaru arfaethedig (Adran 5.2) sy'n cynnwys:
• Defnyddio amddiffynfeydd dros dro yn ystod y cyfnod adeiladu (gwaith dros dro) ar gyfer y cynllun.
• Ystyried codi arwyddion ar y llifddorau i liniaru peryglon Iechyd a Diogelwch.

**Rhywogaethau wedi eu Gwarchod**
Nodwn fod yr adroddiad Asesiad Effaith Ecolegol a gyflwynwyd i gefnogi'r cais uchod (ARUP, Cyfeirnod: 285699-ARP-XX-RP-ENV-004, P01, 10 Gorffennaf 2023) wedi nodi nad oedd Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn defnyddio safle'r cais. Felly nid oes gennym unrhyw sylwadau rhywogaethau gwarchodedig pellach i'w gwneud ar y cais fel y'i cyflwynwyd.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:

Diolch am ymgynghori â ni ar y cais uchod. Ar ôl adolygu'r maes o waith arfaethedig gan gyfeirio at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol (HER), rwyf wedi penderfynu bod potensial ar gyfer effaith archeolegol a hoffwn dynnu eich sylw at y sylwadau isod.

Mae'r datblygiad arfaethedig ar gyfer gwaith peirianyddol i ddarn o forglawdd a leolir yn ardal Gerddi Traphont Abermaw. Mae'r strwythur ei hun yn cynnwys gwahanol gyfnodau o wal fôr wedi'i hailadeiladu er mwyn cynnal amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae'r Datganiad o Arwyddocâd a gyflwynwyd fel rhan o'r cais hwn yn cydnabod y cyflwr lled-ddiraddiedig, yn ogystal â'r potensial ar gyfer cyfnodau strwythur cynharach, yn enwedig lle mae erydu ar y traeth wedi datgelu cynhalion pren.

Mae'r safle yn dod o dan PRN: 19734 sef hen safle'r harbwr. Nid yw union

leoliad a maint y safle yn hysbys, er bod rhai lluniau a mapiau cynnar ar gael i'w dehongli. Newidiwyd llawer o'r ardal yn ystod gwaith gosod y rheilffordd tua diwedd y 19eg ganrif, fodd bynnag mae'r HER ranbarthol yn awgrymu y gellir adnabod nodweddion cynharach o hyd o fewn wal y môr ei hun – yn enwedig modrwyau angori. Mae'r NMR cenedlaethol yn cofnodi llongddrylliadau lluosog yng ngheg ac o gwmpas yr harbwr, er bod eu hunion gyflwr a'u goroesiad yn amrywio.

Er bod cofnodion yn awgrymu nad oedd y dref yn hygyrch i raddau helaeth cyn iddi ehangu ar ôl y canoloesoedd, mae tystiolaeth ganoloesol yn yr anheddiad, ac yn wir mae'n bosibl bod meddiannaeth gynhanesyddol drwy'r ardal. Mae hyn yn cynnwys y fryngaer bosibl, Dinas Oleu, sydd yn union i'r gogledd (NPRN: 302781; PRN: 1140) a'r cylch cytiau cofrestredig Gellfawr sydd mewn cae cyfagos (ME179).

O'r herwydd, mae gan y gwaith arfaethedig y potensial i effeithio ar olion archeolegol adeiledig ac is-arwyneb, ac felly mae angen rhaglen briodol o liniaru archeolegol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddyddodion yn cael eu colli na'u dinistrio'n ormodol heb gofnod. Yn ogystal, dylid cofnodi y gweddillion presennol sydd ar y safle cyn i'r gwaith ddechrau, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi'n llawn ac yn briodol os bydd difrod neu golled ddamweiniol. Rhaid tynnu'r meini amddiffyn dros dro cyn y gellir cynnal y gwaith hwn, er mwyn sicrhau bod cofnod llawn yn cael ei lunio.

Yn sgil y sylwadau hyn ac yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (2021) a TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, argymhellir y dylai'r awdurdod cynllunio fynnu bod mesurau lliniaru archeolegol priodol yn cael eu cymryd, pe bai'r cais cynllunio yn cael ei ganiatáu.

Awgrymir y geiriad canlynol i amod i sicrhau cynllun gwaith o'r fath:

a) Ni fydd unrhyw ddatblygiad (gan gynnwys clirio safle neu waith tir) yn digwydd nes bod manyleb ar gyfer rhaglen o liniaru archeolegol wedi'i chyflwyno a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y datblygiad yn cael ei ymgymryd a bydd yr holl waith archeolegol yn cael ei gwblhau yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

b) Bydd adroddiad manwl ar y gwaith archeolegol, sy'n ofynnol gan amod (a), yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac yn cael ei gymeradwyo yn ysgrifenedig ganddo ymhen chwe mis o gwblhau'r gwaith maes archeolegol.

Rhesymau:
1) I sicrhau bod y rhaglen briodol o waith lliniaru archeolegol yn cael ei gweithredu yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru 2021 a TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.

2) I sicrhau y bydd y gwaith yn cydymffurfio â Rheolaeth Prosiectau Archeolegol (MAP2) a Safonau a Chanllaw Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr (CIfA).

Dylai'r gwaith lliniaru archeolegol gynnwys Cofnod Adeilad cyn cychwyn (Lefel 2) – cynhyrchu cofnod archifol gweledol ar gyfer y strwythur cyn newid ymhellach, ac i fanylu ar nodweddion allweddol lle nodir hynny.

Yn ogystal, dylid cynnal rhaglen ffurfiol o waith archeolegol o'r enw Briff

| | |
|---|---|
| | Gwylio ar sail ddwys ar yr holl waith fydd yn amharu ar y ddaear. Dylai'r ddau uchod gael eu cefnogi gan waith ymchwil briodol ar sail desg i ddarparu cyd-destun i'r ymchwiliad.<br><br>Dylid penodi contractwr archeolegol cymwys i ymgymryd â'r gwaith, a gellir gweld cronfa ddata ohonynt yn http:/www.www.archaeologists.net/civicrm - contact-distance-search (Chartered Institute for Archaeologists). Rhaid i'r contractwr archeolegol a benodir gytuno ar fanyleb i'r gwaith gyda GAPS cyn dechrau ar y prosiect. |
| Gwasanaethau yr Iaith Gymraeg: | **Y risg/effaith ieithyddol a adnabyddir gan yr ymgeisydd:**<br>Mae'r awdur wedi nodi (tud. 15) "Nid yw'n debygol y bydd y gwaith arfaethedig yn cael effaith negyddol na chadarnhaol arwyddocaol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal ac ni fydd yn dylanwadu ar batrwm y Gymraeg yn yr ardal.<br><br>**Barn gryno'r Uned Iaith: Cytuno neu Anghytuno bod y ddogfen yn cynnwys dadansoddiad teg o ffactorau allweddol. Tystiolaeth i gefnogi'r farn a'r asesiad o effaith. Unrhyw newidiadau sydd eu hangen.**<br><br>Nid oes gan yr Uned Iaith unrhyw sylwadau ar y cais hwn. |
| Network Rail: | Diolch i chi am eich ebost dyddiedig 16 Hydref 2023 ynghyd â chyfle i roi sylwadau ar y bwriad yma. Nid oes gan Network Rail wrthwynebiad mewn egwyddor i'r cynnig uchod ond gan fod y cynnig y drws nesaf i dir Network Rail a'n seilwaith ac er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ran o'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch, gweithrediad a chyflawnder y rheilffordd weithredol, rydym wedi cynnwys sylwadau ar warchod asedau ac fe argymhellir yn gryf bod yr ymgeisydd yn eu gweithredu os bydd y cynnig yn cael caniatâd cynllunio.<br><br>Bydd angen gwneud unrhyw waith ar y tir hwn yn dilyn ymgysylltu â Diogelu Asedau i bennu'r rhyngwyneb ag asedau Network Rail, sydd wedi'u claddu neu fel arall a thrwy ymrwymo i Gytundeb Diogelu Asedau Sylfaenol, os oes angen, gydag isafswm o 3 mis o rybudd cyn i'r gwaith ddechrau. I ddechrau, dylai'r parti allanol gysylltu â assetprotectionwales@networkrail.co.uk.<br><br>DRAENIO<br>Ni ddylid adeiladu ffosydd cerrig / pyllau gwanhau / tanciau septig ac ati, fel modd o waredu dŵr storm/wyneb yn agos / o fewn 5 metr i ffin Network Rail neu ar unrhyw le a allai effeithio'n andwyol ar sefydlogrwydd eiddo/seilwaith Network Rail. Ni ddylid gollwng dŵr storm/wyneb ar eiddo Network Rail nac i mewn i geuffosydd neu ddraeniau Network Rail. Ni ddylid peryglu system(au) draenio Network Rail gan unrhyw waith. Rhaid i'r datblygwr ddarparu a chynnal a chadw draeniad addas neu waith arall i atal llif dŵr wyneb neu ddŵr ffo ar eiddo/seilwaith Network Rail. Lefelau'r tir - os caiff ei newid, i fod fel bod dŵr yn llifo i ffwrdd o'r rheilffordd. Nid yw draenio yn ymddangos ar wiriadau gwasanaeth claddedig. |
| Uned Hawliau Tramwy: | Nid yw hi'n ymddangos fod unrhyw Hawliau Tramwy sydd wedi eu cofnodi fydd yn cael eu heffeithio gan y bwriad yma. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ger y safle a gwybyddwyd trigolion/eiddo cyfagos. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |

## 5. Asesu’r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Gorwedd y safle yn rhannol oddi fewn i ffin ddatblygu Abermaw. Gyda rhan o’r safle wedi ei leoli oddi fewn i’r ffin ddatblygu ac nad oes opsiwn o ran lleoliad neillog ar gyfer darparu’r gwaith ystyrir fod y bwriad yn un derbyniol o ran Polisi PCYFF 1 CDLL.

5.2 Byddai’r bwriad yn golygu ail adeiladu’r wal fôr a’i wynebu gyda charreg o’r wal bresennol ac yna byddai rhan wal parapet a fyddai oddeutu 1.2 medr uwchlaw lefel y llawr cyfagos. Byddai’r ‘rock armour’ presennol yn cael ei ail ddosbarthu ar ran uchaf y traeth ar draws ffrynt y wal fôr a’i atgyfnerthu gyda cherrig ychwanegol fel y galw. Byddai wal wrth gefn newydd yn cael ei chodi ar ffin ogleddol Gerddi Viaduct a fyddai’n cynnwys gwydr ar y rhan uchaf. Byddai’r gwaith hefyd yn cynnwys cynllun i reoli dŵr wyneb a fyddai’n cynnwys gatiau llifogydd, gwterydd, draeniau ac amrywiaeth o addasiadau i’r system bresennol ynghyd ac arllwysfa dŵr wyneb newydd ar y traeth. Ar ddiwedd y gwaith byddai’r man cyhoeddus yn Gerddi Viaduct yn cael ei adfer drwy waith tirweddu a gosod dodrefn stryd newydd.

5.3 Mae polisi AMG 4 yn cyfeirio at Warchod yr Arfordir ac yn gofyn i gynigion ddangos bod budd economaidd a chymdeithasol gorbwysol am ddod o'r datblygiad. Hefyd, dylai cynigion sicrhau nad oes niwed annerbyniol i ansawdd dŵr, mynediad cyhoeddus, yr amgylchedd adeiledig, cymeriad y tirlun neu'r morlun ac effeithiau bioamrywiaeth. Mae'r polisi yn blaenoriaethu lleoliadau sydd â chysylltiadau gweledol agos at adeiladau neu strwythurau presennol. Hefyd, mae'n gofyn nad oes unrhyw leoliadau amgen addas ar hyd yr arfordir wedi'u datblygu a bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisïau lleol, gan gynnwys ARNA 1.

5.4 Mae'r cais wedi cael ei gefnogi gan dystiolaeth arwyddocaol yn y datganiadau amrywiol gyflwynwyd gyda’r cais er mwyn cyfiawnhau'r gwaith dan sylw. Oherwydd natur y datblygiad ac ei fod yn ymwneud gyda gwelliannau i amddiffynfeydd môr mae’n angenrheidiol fod y gwaith yn cael ei leoli yn y safle dan sylw ac ar yr arfordir. Mae'r gwaith arfordirol wedi'i leoli'n agos at y ffurf adeiledig bresennol a bydd yn sicrhau gwelliant i’r amddiffynfeydd môr / llifogydd yn y rhan yma o Abermaw. Ystyrir bod egwyddor y gwaith arfordirol yn y lleoliad hwn yn cydymffurfio â pholisi AMG 4, ond trafodir yr agweddau amgylcheddol ymhellach ymlaen yn yr adroddiad.

5.5 Mae polisi ARNA 1 yn berthnasol i'r agwedd hon o'r cynllun ac mae'n nodi na chaniateir Cynigon am gynlluniau amddiffyn arfordirol newydd neu gynlluniau sy’n amnewid hen ddarpariaeth, dim ond os ellir dangos bod y gwaith yn gyson â’r dull rheoli ar gyfer y wyneb blaen a gyflwynir yn y Cynllun Rheoli Traethlin, ac na fydd yna effaith andwyol faterol ar yr amgylchedd.

5.6 Yn y Cynllun Rheoli Traethlin mae’r polisi ar gyfer y rhan yma o Abermaw, sydd yn cynnwys rhan yr harbwr a’r ffordd fynediad, ynghyd ag amddiffynfeydd glan y môr yn nodi Cadw’r Llinell. Datgan y Cynllun Rheoli Traethlin “y byddai angen cynnal a chynyddu uchder amddiffynfeydd o gwmpas yr harbwr a chynnal amddiffynfeydd y ffordd a’r rheilffordd ac, yn ôl pob tebyg, atgyfnerthu mwy ar amddiffynfa Ynys y Brawd. Caiff hyn ei ystyried yn gynaliadwy ac mae’n cynnal defnydd pwysig yr harbwr a mynediad i’r dref.” Felly, ystyrir bod yr egwyddor o gynnal a chynyddu uchder amddiffynfeydd o gwmpas yr harbwr, y ffordd a’r rheilffordd yn dderbyniol mewn egwyddor ar sail polisi ARNA 1. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r cynllun gydymffurfio â nifer o bolisïau eraill sy'n ystyried yr effaith ar yr amgylchedd a thrafodir hyn ymhellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

**Materion Ieithyddol**

5.7 Fel rhan o'r cais cyflwynwyd dogfen 'Y Datblygiad Arfaethedig a'r Iaith Gymraeg'. Daw'r asesiad yma i'r casgliad nad yw'n debygol y bydd y gwaith arfaethedig yn cael effaith negyddol na chadarnhaol arwyddocaol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal ac ni fydd yn dylanwadu ar batrwm y Gymraeg yn yr ardal. Ymgynghorwyd gyda'r Uned Iaith ac nid oedd ganddynt hwy unrhyw sylwadau i'w cynnig. Oherwydd natur y datblygiad dan sylw mae'n annhebygol y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar yr iaith. Ar sail hyn ac yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd ystyrir fod y cais wedi bodloni gofynion polisi PS 1 a'r Canllaw Cynllunio Atodol - 'Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy ac mae'r cynnig yn dderbyniol o ran yr effeithiau ieithyddol.

**Dyluniad a Mwynderau Gweledol**

5.8 Mae Polisi PCYFF3 yn nodi na chymeradwyir cynigion oni bai eu bod yn cydymffurfio â nifer o feini prawf, gan gynnwys bod y cynnig yn ategu ac yn gwella cymeriad y safle, yr adeilad neu'r ardal o ran ei osodiad, ymddangosiad, graddfa, uchder, mas a thriniaeth edrychiadau; ei fod yn parchu cyd-destun y safle a'i le o fewn y dirwedd leol; ei fod yn defnyddio deunyddiau sy'n briodol i'w ardal gyfagos ac yn ymgorffori tirlunio meddal; ei fod yn gwella rhwydwaith trafnidiaeth a chyfathrebu diogel ac integredig; ei fod yn cyfyngu ar ddŵr wyneb ffo a risg llifogydd ac atal llygredd; ei fod yn cyflawni dyluniad cynhwysol sy'n caniatáu mynediad i bawb a'i fod yn helpu i greu amgylcheddau iach ac actif, ac yn ystyried iechyd a llesiant defnyddwyr yn y dyfodol.

5.9 Gorwedd y safle yn rhannol oddi fewn i ffin ddatblygu Abermaw. Mae'r ardal yn cynnwys nifer o strwythurau yn cynnwys arwyddion, goleuadau, polion fflag, waliau a rheiliau a dodrefn stryd amrywiol. Mae hefyd is-orsaf drydan a ciosg o fewn y safle ac mae traphont y rheilffordd yn nodwedd amlwg. Byddai'r bwriad yn golygu ail adeiladu'r wal fôr a'i wynebu gyda charreg o'r wal bresennol ac yna byddai rhan wal paraped a fyddai oddeutu 1.2 medr uwchlaw lefel y llawr cyfagos. Byddai'r 'rock armour' presennol yn cael ei ail ddosbarthu ar ran uchaf y traeth ar draws ffrynt y wal fôr a'i atgyfnerthu gyda cherrig ychwanegol fel y galw. Byddai wal wrth gefn newydd yn cael ei chodi ar ffin ogleddol Gerddi Viaduct a fyddai'n cynnwys gwydr ar y rhan uchaf. Byddai'r gwaith hefyd yn cynnwys cynllun i reoli dŵr wyneb a fyddai'n cynnwys gatiau llifogydd, gwterydd, draeniau ac amrywiaeth o addasiadau i'r system bresennol ynghyd ac arllwysfa dŵr wyneb newydd ar y traeth. Ar ddiwedd y gwaith byddai'r man cyhoeddus yn Gerddi Viaduct yn cael ei adfer drwy waith tirweddu a gosod dodrefn stryd newydd.

5.10 Fel rhan o'r cais derbyniwyd Datganiad Tirwedd a Gweledol. Mae'r safle yn cynnwys gofod cyhoeddus ac mae'r Datganiad Tirwedd a Gweledol yn asesu'r gofod cyhoeddus yma i fod o werth canolig lleol ac nad yw'n agored i newid o'r math dan sylw. Nodir fod cymeriad y dirwedd o sensitifrwydd canolig o ran newid. Nodir fod golygfeydd i dderbynyddion gerllaw e.e. preswylwyr o'r safle o werth uchel yn lleol ond fod y golygfeydd yma eisoes wedi cael ei ddirywio gan y draphont ddominyddol ac annibendod gweledol cymysglyd y safle ac felly fod tueddiad i'r math o newidiadau a fwriedir yn isel. Mae'r tueddiad drwyddi draw i newid felly yn ganolig. Yn ystod y cyfnod adeiladu noda'r Datganiad Tirwedd a Gweledol y byddai effaith negyddol canolig ar dderbynyddion gweledol ond y byddai'r effaith yma yn un dros dro, tymor byr. O ran y cyfnod gweithredol ystyrir y byddai'r effaith tirwedd drwyddi draw yn un newid niwtral lefel isel ar ansawdd, cyflwr a chymeriad cyffredinol y tirlun. Drwyddi draw daw'r Datganiad Tirwedd a Gweledol i'r casgliad o ran effaith weledol cyfnod gweithredol y cynllun y byddai'r bwriad yn arwain at lefel isel niwtral ar fwynderau gweledol pobl. O ran y cynllun yn ei gyfanrwydd daw'r Datganiad Tirwedd a Gweledol i'r casgliad nad yw'r datblygiad yn debygol o achosi unrhyw effeithiau tirwedd a gweledol materol.

5.11 Bydd yr elfennau newydd peirianyddol ac amddiffyn rhag llifogydd ychydig yn uwch ac yn fwy amlwg yn y dirwedd, ond maent wedi'u cynllunio i fod yn cyd-fynd â lleoliad, aliniad a natur y

strwythurau presennol ar y safle. Bydd y gofod yn cadw ei swyddogaeth bresennol fel man agored. Bwriedir ar ddiwedd y gwaith ail ddylunio ardal Gerddi Viaduct a'i symleiddio gyda nodweddion tirlunio a dodrefn stryd a fyddai'n gwella cyflwr, ansawdd a chymeriad cyffredinol y gofod. Byddai angen derbyn cynllun tirweddu manwl ar gyfer yr elfen yma a byddai'n bosibl rhoddi amod i gyflwyno a chytuno'r union fanylion yma os penderfynir caniatáu'r cais. Drwyddi draw ni ystyrir y byddai'r bwriad yn debygol o gael effaith andwyol ar fwynderau gweledol yr ardal.

5.12 Mae'r safle wedi ei leoli oddi fewn i Ardal Tirwedd Arbennig. Yn bresennol mae'r ardal yn cynnwys nifer o strwythurau amrywiol yn cynnwys dodrefn stryd, is-orsaf drydan, ciosg ac mae'r draphont rheilffordd yn eithaf dominyddol yn y golygfeydd o'r ardal. O ystyried y lleoliad yng nghanol ffurf adeiledig Abermaw a gerllaw i'r draphont rheilffordd ni ystyrir y byddai'r newidiadau a fwriedir i'r amddiffynfeydd môr yn debygol o gael effaith andwyol ar gymeriad yr Ardal Tirwedd Arbennig nag ar y golygfeydd a geir ohono.

5.13 Ceir ffin Parc Cenedlaethol Eryri oddeutu 430 medr i'r de ddwyrain o'r safle. Gyda lleoliad y safle gerllaw traphont y rheilffordd a ffurf adeiledig Abermaw yn gefndir iddo, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi niwed i olygfeydd i mewn ac allan o'r Parc Cenedlaethol. Ni ystyrir felly y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar gymeriad y Parc Cenedlaethol.

5.14 Yn yr un modd â nifer o ddatblygiadau, bydd yr effeithiau mwyaf andwyol i'w cael yn ystod y cam adeiladu ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Tirwedd a Gweledol. Ystyrir bod y cynnig, o ran ei ffurf a'i orffeniad, yn dderbyniol ac yn cynnig datblygiad o ansawdd o ran y mwynderau gweledol drwy arddangos dyluniad a nodweddion sy'n cyflwyno ac yn creu datblygiad fyddai'n addas ac yn briodol i'r safle ac o fewn yr ardal ehangach. O ganlyniad, ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol yn seiliedig ar ofynion perthnasol Polisi PCYFF 3, PCYFF 4, AMG 2 ac AMG 4 CDLL.

**Materion Treftadaeth ac Archeolegol**

5.15 Fel rhan o'r cais derbyniwyd Datganiad Treftadaeth. Daw'r asesiad yma i'r canlyniad fod yr ardaloedd aseswyd gydag arwyddocâd treftadaeth isel i ganolig. Mae rhan o'r safle yn disgyn oddi fewn i'r Ardal Cadwraeth ac mae rhai adeiladau rhestredig i'w cael yn y cyffiniau. Mae nifer o strwythurau amrywiol i'w cael yn ardal y cais fel y mae ar hyn o bryd yn cynnwys yr amddiffynfeydd môr presennol, is-orsaf drydan, dodrefn stryd, ciosg a thraphont y rheilffordd. Byddai'r bwriad dan sylw yn golygu newidiadau i'r amddiffynfeydd môr gan gynnwys codi uchder y wal ac adeiladu wal wrth gefn a fyddai'n cynnwys gwydr ar y rhan uchaf. Fodd bynnag, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth / adeiladau rhestredig na'i gosodiad. Mae'r safle hefyd yn gorwedd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Mawddach. Ystyrir mai'n lleol y byddai effaith y bwriad ac na fyddai'n cael effaith ar y dirwedd hanesyddol yn ehangach. Ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o ran Polisi PS 20 ac AT 1 CDLL.

5.16 Derbyniwyd sylwadau gan Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd ar y bwriad. Mae'r sylwadau yn cyfeirio fod gan y safle potensial ar gyfer nodweddion archeolegol ac maent felly yn argymell gosod amodau ar unrhyw ganiatâd cynllunio i sicrhau rhaglen o waith archeolegol ar gyfer y datblygiad. Ystyrir o roddi amod briodol i gynnal rhaglen o waith archeolegol fod y bwriad yn dderbyniol o ran Polisi AT 4 CDLL.

**Mwynderau Preswyl a Chyffredinol**

5.17 Mae polisi PCYFF 2 o'r CDLL yn ceisio gwarchod mwynderau preswyl. Mae'n debygol y ceir yr effaith fwyaf o'r datblygiad yn ystod y cyfnod o adeiladu'r gwaith amddiffyn arfordirol,

5.18 Fel rhan o'r cais derbyniwyd Asesiad Sŵn a Dirgryniad. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan Adran Gwarchod y Cyhoedd yn cydnabod y bydd gan y datblygiad y potensial i gael effaith

negyddol o ran niwsans, sŵn a dirgryniad ar eiddo preswyl yn yr ardal pe na bai'r mesurau lliniaru yn eu lle. I'r perwyl yma mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi argymell nifer o amodau i geisio lleihau effaith y bwriad ar y gymuned leol. Ystyrir y byddai'n briodol i gynnwys amodau o safbwynt materion fel oriau gwaith adeiladu, oriau gwaith stancio, mesurau lliniaru / rhwystrau sŵn, cytuno cynllun rheoli amgylcheddol adeiladu. O osod amodau addas fel yr argymhellir gan yr Adran Gwarchod y Cyhoedd fe ystyrir y gellid rheoli'r effaith ar fwynderau'r gymdogaeth leol i lefel foddhaol

5.19 Unwaith y bydd y cam adeiladu wedi'i gwblhau, ni ystyrir y bydd y datblygiad yn arwain at effaith annerbyniol ar fwynderau preswyl neu gyffredinol ac ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol ar sail meini prawf perthnasol ym mholisïau PCYFF 2.

**Materion Priffyrdd**

5.20 Byddai mynediad i'r safle oddi ar yr A469 gyda'r deunyddiau ac offer adeiladu yn cael eu cludo i'r safle gan ddefnyddio rhwydwaith ffyrdd presennol. Tra'n gwneud y gwaith o osod y rhwydwaith draenio ffyrdd newydd, bydd yr A496 wedi'i chyfyngu i lôn sengl gan weithio gyda dulliau rheoli traffig a gwyriadau priodol ar waith i reoli llif y traffig. Bydd yr union amseriadau a'r amserlen ar waith ar ôl penodi contractwr. Nid oedd gan yr Uned Trafnidiaeth bryderon am y bwriad. Ni ystyrir y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch ffyrdd ac yn dderbyniol o ran Polisi TRA 4 CDLL.

**Materion Llifogydd**

5.21 Mae'r cais wedi cael ei gefnogi gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA). Mae'r gwaith yn cynnwys:-

- Atgyweirio/cryfhau a chodi'r morglawdd ar hyd ffrynt Gerddi Viaduct i 5.6m AOD (0.29m uwchlaw'r digwyddiad llanw 0.5% +cc AEP).
- Codi wal gefn newydd a gatiau/rhwystr llifogydd y tu ôl i flaen Gerddi Viaduct i 5.3m AOD.
- Cynllun draenio newydd i reoli dŵr wyneb yn yr ardal y tu ôl i'r wal gefn a'r gatiau llifogydd.
- Draenio lleol newydd i reoli dŵr wyneb a chyfeintiau sy'n gorlifo yn yr ardal rhwng y morglawdd a'r wal gefn/llifddorau newydd.

5. 22 Derbyniwyd sylwadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r sylwadau yma yn nodi fod yr FCA wedi dangos y bydd y cynllun yn welliant o ran perygl llifogydd i'r ardal o amgylch Gerddi Viaduct yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, Addasu i Newid Hinsawdd: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, dyddiedig Awst 2022. Datgan CNC hefyd y byddai codi'r wal i 5.6m AOD yn sicrhau na fyddai'n cael ei goruchafu gan 'lefel dŵr llonydd' o AOD 5.31m yn y digwyddiad llanw AEP 0.5% + cc. Fodd bynnag, gallai gweithred gwynt a thonnau ddal arwain at oruchafu'r wal newydd. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn darparu ardal ar gyfer casglu'r dyfroedd yma a pe bai'r ardal hon yn cael ei llenwi, bydd unrhyw lifoedd ychwanegol yn cael eu cyfeirio'n ôl i'r ffordd ac yna yn ôl i'r môr drwy'r cynllun draenio newydd. Yn ychwanegol nodwyd y byddai'r cynllun yn caniatáu ar gyfer codi'r wal wrth gefn yn y dyfodol i lefel o 5.8m AOD pe bai angen. Mae sylwadau CNC hefyd yn datgan eu bod yn croesawu'r mesurau lliniaru sydd wedi ei gynnwys yn rhan 5.2 o'r FCA.

5.23 O ystyried sylwadau cynnwys yr FCA a sylwadau CNC ystyrir y byddai'r bwriad dan sylw yn darparu gwelliant o ran perygl llifogydd i'r ardal yma o Abermaw. Ystyrir y byddai'n briodol i gynnwys yr FCA fel un o'r dogfennau y dylid cydymffurfio gydag o os penderfynir caniatáu'r cais. O wneud hyn ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o ran NCT 15 a pholisi PS 5 a PS 6 CDLl.

**Effeithiau Bioamrywiaeth ac Ecolegol**

5.24 Mae nifer o bolisïau yn berthnasol i'r agwedd hon o'r cais. Mae Polisi PS 19 yn ymwneud â chadw ac / neu gyfoethogi'r amgylchedd naturiol ac mae polisi AMG 5 yn amddiffyn Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol. Mae Polisi AMG 4 yn ceisio cynnal, gwella ac amddiffyn yr arfordir.

5.25 Fel rhan o'r cais cyflwynwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd - Adroddiad Sgrinio Rhagarweiniol, asesiad Effaith Ecolegol a Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol. Mae'r Asesiadau yma wedi ystyried prosesau ffisegol ac arfordirol, ansawdd dŵr a dyddodion, ecoleg forol a chadwraeth natur, ecoleg ddaearol a chadwraeth natur; ac amddiffyn arfordirol ac amddiffyn rhag llifogydd.

5.26 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cyngor yn dod i'r casgliad fod y cynnig hwn yn debygol o gael effaith sylweddol ar ACA Pen Llyn a'r Sarnau. Mae CNC wedi tynnu sylw at eu pryderon ynghylch colli cynefin rhynglanwol bach o fewn yr ôl troed a'r newid posibl i broses arfordirol oherwydd y bibell uchel arfaethedig.

5.27 Mae Cyngor Gwynedd a CNC yn awdurdodau cymwys o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), a rhaid iddynt cyn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer prosiect sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar ACA, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, wneud asesiad priodol o oblygiadau'r prosiect ar gyfer y safle hwnnw o ystyried ei amcanion cadwraeth. Mae'r cynnig gerbron yn disgyn oddi fewn i'r amgylchedd morol ac ar y tir ac felly mae cyfrifoldebau'r Cyngor a CNC yn gorgyffwrdd o ran materion asesiad priodol. Gyda'r effaith ar yr ACA yn disgyn o fewn yr amgylchedd morol yna CNC sydd yn cymryd yr awenau fel yr awdurdod cymwys arweiniol. Cyflwynwyd cais am Drwydded Forwrol i CNC ac mae asesiad priodol wedi ei wneud yn sgil hynny.

5.28 Fel y nodwyd uchod mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cyngor yn dod i'r casgliad fod y cynnig hwn yn debygol o gael effaith sylweddol ar ACA Pen Llyn a'r Sarnau. Mae Erthygl 6(4) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, yn darparu eithriad sy'n galluogi i gynllun neu brosiect gael ei gymeradwyo mewn amgylchiadau cyfyngedig, er y byddai'n cael neu'n gallu cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd. Dan Erthygl 6(4), ni all cynllun neu brosiect fwrw yn ei flaen oni bai bod tri phrawf dilyniannol yn cael eu bodloni:

- *Ni ddylai fod unrhyw ddatrysiadau amgen dichonadwy i'r cynllun neu'r prosiect sy'n llai niweidiol i'r safle(au) Ewropeaidd yr effeithir arnynt;*
- *Rhaid bod "rhesymau hanfodol dros fudd cyhoeddus" (IROPI) er mwyn i'r cynllun neu'r prosiect fynd rhagddo;*
  *a*
- *Rhaid sicrhau pob mesur iawndal angenrheidiol i sicrhau bod cydlyniad cyffredinol y rhwydwaith o safleoedd Ewropeaidd yn cael ei ddiogelu.*

5.29 Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn amlinellu nad oes unrhyw ddatrysiadau amgen dichonadwy a bod rhesymau budd cyhoeddus hanfodol oedd yn gorbwyso o ran y prosiect. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, mae'r Awdurdod yn fodlon bod y profion hyn wedi'u bodloni. Mae'r ymgeisydd yn bwriadu gwneud defnydd o'r 'National Habitats Creation Programme' (NHCP) i ddigolledu am y golled o ran y nodwedd fflatiau llaid a fflatiau tywod ar golled o dir oherwydd gwasgfa arfordirol a nodir hyn oddi fewn eu hadroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

5.30 Fel y nodwyd eisoes, mae'r datblygiad angen trwydded forwrol. Gwnaeth yr ymgeiswyr gais am Drwydded Forwrol i CNC ac maent wedi derbyn cymeradwyaeth. Fel rhan o'r broses yma mae CNC wedi ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru ac felly nid oes gofyniad i ailadrodd y broses hysbysu gyda Llywodraeth Cymru drwy'r broses gynllunio ac fel y cyfryw, mae'r ystyriaethau a'r broses Asesiad Rheolaethau Cynefinoedd eisoes wedi'u bodloni.

5.31 Wrth osod amodau, ystyrir bod y cynnig yn unol â pholisïau PS 19, AMG 4 ac AMG 5 CDLL.

**Unrhyw faterion eraill**

5.32 Mae gan Dŵr Cymru nifer o asedau o fewn safle'r cais y maent yn awyddus i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu yn sgil y datblygiad. Mae Dŵr Cymru wedi argymell nifer o amodau i sicrhau fod effaith y bwriad ar yr asedau yma yn cael eu hasesu a'u diogelu ac ystyrir y byddai'n briodol i gynnwys yr amodau fel ag yr argymhellir gan Dŵr Cymru os penderfynir caniatáu'r cais.

## 6. Casgliadau

6.1 O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol yn llawn gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol, credir fod y bwriad yma yn cydymffurfio a gofynion y polisïau perthnasol fel y nodir uchod.

## 7. Argymhelliad

7.1 Caniatáu - amodau

1. Cychwyn o fewn 5 mlynedd.
2. Yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau a gyflwynwyd.
3. Amodau Gwarchod y Cyhoedd – amseroedd
4. Cyflwyno a chytuno CEMP
5. Cyflwyno a chytuno manylion tirweddu meddal a caled.
6. Gweithredu'r manylion tirweddu.
7. Cynllun i amddiffyn cyflwr strwythurol a mynediad parhaus y prif gyflenwad dŵr cyhoeddus sy'n croesi'r safle.
8. Cynllun i amddiffyn cyflwr strwythurol a mynediad parhaus yr asedau dŵr gwastraff cyhoeddus sy'n croesi'r safle.
9. Oriau gwaith cyfnod adeiladu.
10. Oriau stancio dalennau.
11. Gweithredu mesurau lliniaru lefelau sŵn.
12. Gosod rhwystrau sŵn.
13. Cyflwyno a chytuno Cynllun Rheoli Sŵn ar gyfer y cyfnod adeiladu.
14. Amodau archeolegol.

Nodyn:-
SuDS
Cyngor CNC, Network Rail, Gwarchod y Cyhoedd a Dŵr Cymru i'r datblygwr,